WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Adroddiad Archwilio Blynyddol 2011

# Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

**Cyhoeddwyd:** Hydref 2011

**Cyfeirnod y ddogfen: 537A2011**

# Statws yr adroddiad

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan John Herniman,
Alison Butler ac Anne Beegan ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Adroddiad cryno** | 4 |
| **Adroddiad manwl** | |
| Yr adroddiad hwn | 6 |
| Adran 1: Archwilio cyfrifon | 7 |
| Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd, er i mi dynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater wrth wneud hynny | 7 |
| Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau | 12 |
| Nid yw'r arbedion cost gofynnol sef £87.8 miliwn (8.1 y cant) yn cael eu cyflawni. Hyd yma mae cynlluniau ar waith i arbed £56.3m (5 y cant) ac mae'r Bwrdd Iechyd yn rhagweld y bydd diffyg o £31.5 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2011-12 | 12 |
| Yn gyffredinol, gwnaed cynnydd da o ran mynd i'r afael â'r meysydd i'w datblygu a nodwyd yn fy Asesiad Strwythuredig yn 2010 ond erys heriau penodol o hyd | 13 |
| Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cryfhau ei drefniadau ar gyfer contract y meddygon ymgynghorol ond mae rhwystrau yn bodoli a all rwystro'r Bwrdd rhag cyflawni buddiannau llawn y contract | 15 |
| Cymerwyd camau i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd mewn nifer o adolygiadau archwilio perfformiad blaenorol ond mae angen gwneud cynnydd pellach mewn sawl maes | 16 |
| **Atodiadau** | |
| Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf | 18 |
| Ffi archwilio | 20 |

# Adroddiad cryno

**1.** Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r canfyddiadau o'r gwaith archwilio rwyf wedi'i gyflawni ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (y Bwrdd Iechyd) yn ystod 2011.

**2.** Mae'r gwaith rwyf wedi'i wneud yn y Bwrdd Iechyd yn fy ngalluogi i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) o ran archwilio cyfrifon a threfniadau'r Bwrdd Iechyd i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

**3.** Mae fy ngwaith archwilio wedi canolbwyntio ar flaenoriaethau strategol yn ogystal â'r risgiau ariannol a gweithredol sylweddol sy'n wynebu'r Bwrdd Iechyd, sy'n berthnasol i'm cyfrifoldebau archwilio. Ceir rhagor o fanylion am yr agweddau penodol ar fy archwiliad yn yr adroddiadau ar wahân a gyhoeddwyd gennyf yn ystod y flwyddyn. Trafodir a chytunir ar yr adroddiadau hyn gyda swyddogion ac fe'u cyflwynir i Bwyllgor perthnasol y Bwrdd. Mae'r adroddiadau a gyhoeddwyd gennyf i'w gweld yn Atodiad 1.

**4.** Crynhoir y negeseuon allweddol o'm gwaith archwilio o dan y penawdau canlynol.

## Archwilio cyfrifon

**5.** Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2010-11, er i mi dynnu sylw swyddogion, y Pwyllgor Archwilio a'r Bwrdd at sawl mater wrth wneud hynny. Mae'r materion hyn yn cynnwys mynd i'r afael â hawliadau gofal iechyd parhaus nas ymdriniwyd â hwy er mwyn llywio'r ddarpariaeth gysylltiedig yn well, gwella cadernid rhai rhwymedigaethau gofal sylfaenol a sicrhau y cydymffurfir â'r gofynion ar gyfer cyflwyno adroddiadau ar daliadau yn y sector cyhoeddus.

**6.** Deuthum hefyd i'r casgliadau canlynol:

- paratowyd cyfrifon y Bwrdd Iechyd yn briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol;
- roedd gan y Bwrdd Iechyd amgylchedd rheolaeth fewnol effeithiol i leihau'r risg o gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol, er bod lle i wella'r trefniadau llywodraethu cyffredinol ar gyfer rheoli a chyflwyno adroddiadau ar brosiectau cyfalaf; ac
- roedd systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig y Bwrdd Iechyd yn cael eu rheoli a'u gweithredu'n briodol, yn ôl y bwriad, er bod nifer o wendidau yn y system y mae angen i reolwyr weithredu arnynt.

**7.** Cyflawnodd y Bwrdd Iechyd falans ariannol ar ddiwedd 2010-11. Y targed arbedion ar gyfer 2010-11 oedd £82.4 miliwn a chyflawnwyd hyn drwy gyfuniad o £54 miliwn o arbedion a gofnodwyd a £28.4 miliwn o gyllid ychwanegol anghylchol gan Lywodraeth Cymru.

## Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

**8.** Rwyf wedi adolygu trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau. Mae fy ngwaith wedi cynnwys mesur y cynnydd a wnaed o ran mynd i'r afael â'r meysydd i'w datblygu ymhellach a nodwyd yn yr Asesiad Strwythuredig y llynedd. Cynhaliwyd adolygiadau archwilio perfformiad hefyd ar feysydd penodol lle darperir gwasanaethau. Mae'r gwaith hwn wedi'm harwain at y casgliadau canlynol:

- nid yw'r arbedion cost gofynnol sef £87.8 miliwn (8.1 y cant) yn cael eu cyflawni. Hyd yma, mae cynlluniau ar waith ar gyfer arbed £56.3 miliwn (5 y cant) ac mae'r Bwrdd Iechyd yn rhagweld y bydd diffyg o £31.5 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2011-12;
- yn gyffredinol, gwnaed cynnydd da o ran mynd i'r afael â'r meysydd i'w datblygu a nodwyd yn fy Asesiad Strwythuredig yn 2010 ond erys heriau penodol o hyd;
- mae'r Bwrdd Iechyd wedi cryfhau ei drefniadau ar gyfer contract y meddygon ymgynghorol ond mae rhwystrau yn bodoli a all rwystro'r Bwrdd rhag cyflawni buddiannau llawn y contract; a
- chymerwyd camau i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd mewn nifer o adolygiadau archwilio perfformiad blaenorol ond mae angen gwneud cynnydd pellach mewn sawl maes.

## Cytuno ar fy nghanfyddiadau gyda'r Tîm Gweithredol

**9.** Cytunwyd ar yr adroddiad hwn gyda'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid. Caiff ei gyflwyno i'r Bwrdd ar 1 Tachwedd a rhoddir copi i bob aelod o'r Bwrdd Iechyd. Anogwn y Bwrdd Iechyd i gyhoeddi'r adroddiad hwn yn ehangach. Ar ôl iddo gael ei ystyried gan y Bwrdd, bydd hefyd ar gael i'r cyhoedd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru (www.wao.gov.uk).

**10.** Hoffwn ddiolch o galon i staff ac aelodau'r Bwrdd Iechyd am eu cymorth a'u cydweithrediad yn ystod yr archwiliad.

# Adroddiad manwl

## Yr adroddiad hwn

**11.** Mae'r Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn i aelodau Bwrdd y Bwrdd Iechyd yn nodi canfyddiadau allweddol y gwaith archwilio a wnaed gennyf rhwng mis Rhagfyr 2010 a mis Medi 2011.

**12.** Ymgymeraf â'm gwaith yn y Bwrdd Iechyd mewn ymateb i'r gofynion a nodwyd yn Neddf 2004. Mae'r Ddeddf honno yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- **a)** archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan y Bwrdd Iechyd, a'u cyflwyno gerbron y Cynulliad Cenedlaethol;
- **b)** bodloni fy hun yr aed i'r gwariant y mae'r cyfrifon yn ymwneud ag ef yn gyfreithlon ac yn unol â'r awdurdodau sy'n ei lywodraethu; a
- **c)** bodloni fy hun bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

**13.** Mewn perthynas ag **(c)**, rwyf wedi dod i gasgliadau pendant, neu fel arall, gan ddefnyddio'r ffynonellau tystiolaeth canlynol:

- canlyniadau'r gwaith archwilio ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd;
- gwaith a wnaed fel rhan o'm Hasesiad Strwythuredig diweddaraf o'r Bwrdd Iechyd, a archwiliodd y trefniadau o ran rheoli ariannol, llywodraethu ac atebolrwydd a rheoli adnoddau;
- hunanasesiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn modiwl Llywodraethu ac Atebolrwydd y Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru;
- archwiliadau o berfformiad a gynhaliwyd yn y Bwrdd Iechyd;
- canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, lle maent yn berthnasol i'm cyfrifoldebau; a
- gwaith arall, megis ymarferion paru data ac ardystio hawliadau a ffurflenni.

**14.** Rwyf wedi cyflwyno sawl adroddiad i'r Bwrdd Iechyd eleni. Mae'r negeseuon sydd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn yn crynhoi'r materion a gyflwynwyd yn yr adroddiadau manylach hyn. Rhestrir y rhain yn Atodiad 1.

**15.** Ystyrir canfyddiadau fy ngwaith o dan y penawdau canlynol:

- archwilio cyfrifon; a
- threfniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau.

**16.** Yn olaf, rhydd Atodiad 2 yr amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd yn rhaid i mi ei chodi i dalu am gostau gwirioneddol fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd, ynghyd â'r ffi wreiddiol a nodwyd yn yr Amlinelliad o'r Archwiliad.

# Adran 1: Archwilio cyfrifon

**17.** Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2010-11. Mae'r sefydliad yn dangos ei berfformiad ariannol drwy'r datganiadau hyn ac yn nodi ei gostau gweithredu net, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig a'i lifau arian parod. Mae paratoi datganiadau ariannol sefydliad yn rhan hanfodol o ddangos bod arian cyhoeddus yn cael ei warchod yn briodol.

### Fy nghyfrifoldebau

**18.** Wrth archwilio datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd, mae'n ofynnol i mi roi barn ar y canlynol:

- a ydynt yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd a'i incwm a'i wariant am y cyfnod dan sylw;
- a ydynt yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol - a achoswyd drwy dwyll neu wall;
- a ydynt wedi'u paratoi yn unol â gofynion statudol ac unrhyw ofynion cymwys eraill ac yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifon;
- a yw'r rhan honno o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth sydd i'w archwilio wedi'i pharatoi'n briodol; a
- rheoleidd-dra'r gwariant a'r incwm.

**19.** Wrth roi'r farn hon, rwyf wedi cydymffurfio â'r Cod Ymarfer Archwilio a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISAs).

**20.** Wrth wneud y gwaith hwn, mae archwilwyr hefyd wedi ystyried digonolrwydd y canlynol:

- amgylchedd rheolaeth fewnol y Bwrdd Iechyd; a
- systemau ariannol ar gyfer llunio'r datganiadau ariannol.

## Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2010-11, er i mi dynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater wrth wneud hynny

### Paratowyd cyfrifon y Bwrdd Iechyd yn briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol

**21.** Cyflwynwyd y datganiadau ariannol drafft cyn y terfyn amser, sef 5 Mai 2011. Paratowyd y datganiadau ariannol i safon dda iawn ac fe'u hategwyd gan bapurau gwaith o ansawdd da. Roedd hyn yn gyflawniad sylweddol gan fod yr amserlen a bennwyd gan Lywodraeth Cymru wedi golygu bod llai o amser i lunio ac archwilio'r cyfrifon, gan roi cryn dipyn o bwysau ychwanegol ar y tîm cyllid. Roedd tystiolaeth glir

hefyd fod y datganiadau ariannol wedi bod yn destun gwiriadau sicrhau ansawdd, gan gynnwys adolygiad manwl gan Aelodau Annibynnol.

**22.** Yn unol â Safon Archwilio Ryngwladol 260 (ISA 260) mae'n ofynnol i mi gyflwyno adroddiad ar faterion sy'n deillio o'm gwaith i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu cyn i mi roi fy marn archwilio ar y cyfrifon. Cyflwynodd fy Arweinydd Ymgysylltu ar gyfer yr Archwiliad Ariannol adroddiad ar y materion hyn i Bwyllgor Archwilio'r Bwrdd Iechyd ar 1 Mehefin 2011 ac i'r Bwrdd ar 7 Mehefin 2011. Mae Arddangosyn 1 yn crynhoi'r materion allweddol a nodir yn yr adroddiad hwnnw.

### Arddangosyn 1: Materion a nodwyd yn yr Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol

| Mater | Sylwadau'r archwilwyr |
|---|---|
| Hawliadau gofal iechyd parhaus | Cyfyngedig fu'r cynnydd o ran asesu hawliadau gofal iechyd parhaus nas ymdriniwyd â hwy. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hawliadau nas ymdriniwyd â hwy yn faes amcangyfrif allweddol a nodwyd amcangyfrif o £6 miliwn ar 31 Mawrth 2011. Mae'r amcangyfrif hwn yn seiliedig ar gymysgedd o asesiadau gwirioneddol a'r Gofal Nyrsio a Ariennir gan y GIG fel mesur dirprwy.<br>Mae BILl Powys yn gyfrifol bellach am asesu'r holl hawliadau a dderbyniwyd cyn mis Awst 2010. Dylai gwybodaeth fanylach am dueddiadau fod ar gael dros yr ychydig fisoedd nesaf a dylai'r wybodaeth hon gael ei defnyddio i lywio'r cyfrifiad o ddarpariaeth 2011-12. |
| Cyflogau a gyfalefir | Nid yw cyflogau a gyfalefir yn cael eu dyrannu i gynlluniau cyfalaf penodol bob amser sy'n golygu na chânt eu hailbrisio pan gaiff yr asedau cysylltiedig eu defnyddio. Cyfanswm y cyflogau a gyfalafwyd ar 31 Mawrth 2011 oedd £799,000. Yn y dyfodol, mae angen i'r cyfryw gostau gael eu dyrannu i gynlluniau cyfalaf penodol a'u cynnwys yn yr ailbrisiad pan gaiff yr ased cysylltiedig ei ddefnyddio. |
| Gwariant ar Wasanaethau Meddygol Cyffredinol (GMS) gwell | Ar 31 Mawrth 2010, roedd y cyfrifon yn cynnwys croniad o £5.9 miliwn a oedd yn gysylltiedig â'r contract GMS. Dilëwyd £1.7 miliwn o'r balans hwn yn ystod 2010-11, gan yr ystyriwyd nad oedd yn cynrychioli rhwymedigaethau dilys mwyach. O ystyried lefel y croniadau a ddilëwyd yn 2010-11, mae angen gwneud gwaith pellach yn 2011-12 i asesu a gwella cadernid rhwymedigaethau GMS ar ddiwedd y flwyddyn. |

| Mater | Sylwadau’r archwilwyr |
|---|---|
| Dadgydnabod asedau | Nid oes systemau digonol ar waith i nodi a rhoi cyfrif am werth hen eiddo, offer a chyfarpar a gaiff eu cyfnewid am rai newydd, yn unol â gofynion Safon Gyfrifyddu Ryngwladol (IAS) 16. Yn unol â Safon Gyfrifyddu Ryngwladol (IAS) 16, pan gaiff rhannau o asedau eu newid, mae angen didynnu unrhyw werthoedd sy’n weddill ar gyfer yr asedau a newidiwyd o werthoedd yr eiddo (dadgydnabyddedig) gydag unrhyw elw neu golled yn cael ei gydnabod/chydnabod yn y cyfrif refeniw. Roedd hwn yn ofyniad newydd o 2009-10 ymlaen. Ar hyn o bryd, nid oes gan y Bwrdd Iechyd, nac unrhyw gyrff eraill y GIG yng Nghymru, systemau ar waith i nodi’r cyfryw werthoedd fel mater o drefn. |
| Credydwyr oed | Roedd y balans cyfrifon taladwy yn cynnwys £2 filiwn a fu’n ddyledus ers dros flwyddyn. Dylai’r Bwrdd Iechyd geisio setlo neu gytuno i ganslo’r anfonebau hyn cyn gynted â phosibl er mwyn lleihau lefel yr ansicrwydd mewn datganiadau ariannol yn y dyfodol. |
| Targed polisi taliadau’r sector cyhoeddus | Nodir bod 95.6 y cant o gredydwyr nad ydynt yn rhan o’r GIG wedi cael eu talu o fewn 30 diwrnod. Fodd bynnag, gwnaed rhai tybiaethau i wneud addasiadau ar gyfer anfonebau y mae anghydfod yn eu cylch ac mae perfformiad yn seiliedig ar y dyddiadau y derbynnir yr anfonebau gan yr Adran Gyllid yn hytrach na’r Bwrdd Iechyd. Mae angen gwneud gwaith pellach yn 2011-12 er mwyn sicrhau y cydymffurfir â’r gofynion o ran cyflwyno adroddiadau. |
| Datganiad am Reolaeth Fewnol | Ni dderbyniwyd y Datganiad am Reolaeth Fewnol tan 31 Mai 2011, sef rhai wythnosau ar ôl y terfyn amser ar gyfer cyflwyno cyfrifon drafft. Yn anochel, achosodd hyn bwysau ychwanegol yn ystod y cyfnod cyn cyflwyno’r datganiadau ariannol archwiliedig. Ar gyfer y flwyddyn nesaf, dylai’r Pwyllgor Archwilio sicrhau bod trefniadau ar waith i sicrhau bod y Datganiad am Reolaeth Fewnol a’r holl dystiolaeth ategol yn cael eu paratoi a’u hystyried yn unol â’r amserlenni ar gyfer cyflwyno cyfrifon drafft. |

**23.** Fel rhan o’m harchwiliad ariannol gwneuthum hefyd gynnal yr adolygiadau canlynol:

- Ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan - deuthum i’r casgliad fod gwybodaeth gyfunol parti i gontract yn gyson â sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar 31 Mawrth 2011, a pharatowyd y ffurflen yn unol â chyfarwyddiadau’r Trysorlys.
- Datganiadau Ariannol Cryno a’r Adroddiad Blynyddol - deuthum i’r casgliad fod y datganiadau cryno yn gyson â’r datganiadau ariannol llawn. Fodd bynnag, roedd oedi wrth gyflwyno’r Adroddiad Blynyddol ac achosodd hyn anawsterau oherwydd y terfynau amser tynn ar gyfer ei gyhoeddi. At hynny, er na chaiff ei gwmpasu gan fy marn archwilio, nid oedd cynnwys yr Adroddiad Blynyddol yn cydymffurfio’n llawn â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

24. Rwyf wrthi'n cynnal archwiliad ar wahân o ddatganiadau ariannol Cronfeydd a Ddelir ar gyfer Ymddiriedolaethau ac rwy'n disgwyl cyflwyno fy adroddiad i'r Ymddiriedolwyr ym mis Tachwedd 2011.

### Roedd gan y Bwrdd Iechyd amgylchedd rheolaeth fewnol effeithiol i leihau'r risg o gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol, er bod lle i wella'r trefniadau llywodraethu cyffredinol ar gyfer rheoli a chyflwyno adroddiadau ar brosiectau cyfalaf

25. Ni nodwyd unrhyw wendidau perthnasol yn eich amgylchedd rheolaeth fewnol. At hynny, rhoddodd 'Datganiad Sicrwydd ac Adroddiad Blynyddol' y gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011 'sicrwydd digonol' i'r Bwrdd Iechyd. Mae'r farn hon yn adlewyrchu system rheolaeth fewnol sy'n gadarn ar y cyfan sydd â graddau eang o gydymffurfiaeth weithredol, ond gyda rhai gwendidau o ran cynllunio a chymhwyso rheolaethau a allai beri risg o ran cyflawni amcanion system penodol. Mae rheoli stoc theatrau a thendro ar gyfer contractau yn feysydd sy'n peri pryder penodol a chyfeirir at y ddau ohonynt yn Arddangosyn 2 isod.

26. Yn fy adolygiad o gynllun yr uned iechyd meddwl acíwt i oedolion, nodwyd bod lle i wella eich trefniadau llywodraethu cyffredinol ar gyfer rheoli a chyflwyno adroddiadau ar brosiectau cyfalaf:

- Ni chafodd y costau gwirioneddol yr aed iddynt gan yr uned iechyd meddwl acíwt i oedolion ar safle'r Eglwys Newydd eu nodi'n glir yn y cyfarfodydd diweddaru Monitro Cyfalaf rheolaidd a gynhaliwyd gyda Llywodraeth Cymru. Yn y dyfodol, dylid cyflwyno adroddiadau ar gostau gwirioneddol yn y cyfarfodydd hyn, yn unol â'r wybodaeth y cyflwynir adroddiadau arni eisoes i Lywodraeth Cymru yn y ffurflenni monitro misol.
- Dylai'r penderfyniad a wnaed i gadw partner, cynghorydd costau a rheolwr prosiect y gadwyn gyflenwi pan drosglwyddwyd y cynllun i safle Llandochau fod wedi'i ddogfennu a'i adrodd yn well.

### Roedd systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig y Bwrdd Iechyd yn cael eu rheoli a'u gweithredu'n briodol, yn ôl y bwriad, er bod nifer o wendidau yn y system y mae angen i reolwyr weithredu arnynt

27. Ni nodais unrhyw wendidau perthnasol yn systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig y Bwrdd Iechyd a fyddai'n effeithio ar fy marn. Roedd nifer o faterion manwl yn codi o'm gwaith archwilio ariannol a chyflwynwyd adroddiad arnynt i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Medi 2011. Mae'r rhain yn cynnwys materion y cyfeirir atynt yn Arddangosyn 1 uchod a nifer o faterion eraill, fel y'u nodir yn Arddangosyn 2:

**Arddangosyn 2: Materion eraill sy’n ymwneud â systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig**

| Mater | Sylwadau’r archwilwyr |
|---|---|
| Caffael | Yn ystod fy archwiliad, nodais achlysuron pan dorrwyd y Cyfarwyddiadau Ariannol (SFIs), gyda chontractau yn cael eu hymestyn ar fwy nag un achlysur. Nodais hefyd fod nifer o gontractau wedi’u hymestyn ar ôl y dyddiad y daeth y contract gwreiddiol i ben. |
| Stoc theatrau | Mae angen mynd i’r afael â gwendidau o ran rheolaeth fewnol sy’n ymwneud â monitro a chofnodi’r defnydd a wneir o stoc theatrau. |
| Systemau Technoleg Gwybodaeth (TG) | Nodais nifer o faterion Cymru gyfan ar System Rheoli Ariannol Oracle yn ymwneud â rheolaethau mynediad, cymhlethdod o ran cyfrineiriau a threfniadau wrth gefn. Mae angen mynd i’r afael â’r rhain er mwyn lleihau risgiau posibl i’r system gymhwyso yn y dyfodol.<br>Mae rhai materion TG lleol y mae angen eu hystyried hefyd gan gynnwys hysbysu defnyddwyr o newidiadau i gyfrineiriau, cynhyrchu ac adolygu adroddiadau diogelwch ar gyfer system y gyflogres, gweithredu gweithdrefnau rheoli newid cadarn ar gyfer y system fferyllfeydd mewn ysbytai a chynnal profion treiddio ar y rhwydwaith. |

**28.** Yn ogystal, nododd y gwasanaeth Archwilio Mewnol nifer o wendidau mewn systemau y mae angen i reolwyr weithredu arnynt yn barhaus. Datblygwyd cynlluniau gweithredu i reolwyr er mwyn atgyfnerthu’r gwendidau rheoli a nodwyd yn yr adroddiadau hyn, ac mae’r Pwyllgor Archwilio yn craffu ar y cynnydd a wneir.

## Llwyddodd y Bwrdd Iechyd i gyflawni balans ariannol ar ddiwedd 2010-11, o ganlyniad i gyllid anghylchol ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ac arbedion sy’n rhyddhau arian parod

**29.** Cyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei dargedau ariannol statudol yn 2010-11, gydag arbedion o £54 miliwn yn cael eu cofnodi ar gyfer y flwyddyn. Derbyniodd y Bwrdd Iechyd £28.4 miliwn o arian anghylchol ar gyfer pwysau’r gaeaf hefyd a sicrhaodd fod y Bwrdd Iechyd yn gallu mantoli’r gyllideb.

# Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

**30.** Mae gofyniad statudol arnaf i fodloni fy hun bod gan gyrff y GIG drefniadau cywir ar waith i sicrhau eu bod yn defnyddio eu hadnoddau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o waith archwilio perfformiad yn y Bwrdd Iechyd dros y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

- adolygu trefniadau rheolaeth ariannol y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys y cynnydd sy'n cael ei wneud i gyflawni cynlluniau arbed costau a'u cyfraniad at y broses o gyflawni balans ariannol;
- asesu'r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd o ran mynd i'r afael â'r 'meysydd i'w datblygu' a nodwyd gennym yn yr Asesiad Strwythuredig y llynedd;
- asesu i ba raddau y mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau ar waith i sicrhau bod buddiannau contract y meddygon ymgynghorol yn cael eu cyflawni; ac
- asesu'r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd o ran mynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn sgîl gwaith archwilio blaenorol ar y Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd ar gyfer Meddygon Iau a Gofal heb ei Drefnu.

**31.** Crynhoir prif ganfyddiadau'r gwaith hwn o dan y penawdau canlynol.

## Nid yw arbedion cost gofynnol o £87.8 miliwn (8.1 y cant) yn cael eu cyflawni. Hyd yma, mae cynlluniau ar waith i arbed £56.3 miliwn (5 y cant) ac mae'r Bwrdd Iechyd yn rhagweld y bydd diffyg o £31.5 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2011-12

**32.** Er mwyn mantoli'r gyllideb, mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd arbed £87.8 miliwn mewn costau. Hyd yma, mae cynlluniau ar waith i arbed £56.3 miliwn (5 y cant), a fydd yn arwain at ddiffyg a ragwelir o £31.5 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn.

**33.** Rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2011, sicrhaodd y Bwrdd Iechyd arbedion o £7 miliwn o gymharu â'r arbedion arfaethedig o £8 miliwn. Adolygwyd pob cynllun arbedion ym mis Awst 2011 ac ystyriwyd nad oedd modd cyflawni £19.5 miliwn o'r cyfanswm o £56.3 miliwn o arbedion. Nid oedd rhai cynlluniau arbedion wedi'u datblygu'n ddigonol ac nid oedd modd cyflawni cynlluniau eraill o fewn y terfynau amser gofynnol.

**34.** Dros yr wythnosau diwethaf, nodwyd cynlluniau newydd ar gyfer arbed costau a rhagwelir y gellir cyflawni £56.3 miliwn o arbedion yn ystod y flwyddyn o hyd. Mae risg uwch na chaiff rhai arbedion eu cyflawni, yn enwedig o ran rheoli meddyginiaethau, caffael a newidiadau yn y gweithlu. O ystyried hyn, mae angen gwneud gwaith pellach i sicrhau bod pob cynllun arbedion yn cael ei ddatblygu'n ddigonol a'i ategu gan

gynlluniau gweithredu cadarn ar gyfer ei gyflawni.  Dros yr wythnosau nesaf, mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau ei fod yn cyflawni ei gynlluniau arbedion. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried proffil yr arbedion, gyda £46.8 miliwn o'r £56.3 miliwn o arbedion arfaethedig yn cael eu cyflawni rhwng mis Medi 2011 a mis Mawrth 2012.

## Yn gyffredinol, mae cynnydd da wedi'i wneud o ran mynd i'r afael â'r meysydd i'w datblygu a nodwyd yn fy Asesiad Strwythuredig yn 2010 ond erys heriau penodol o hyd

**35.** Rwyf wedi asesu'r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd o ran mynd i'r afael â'r meysydd i'w datblygu a nodwyd yn fy Asesiad Strwythuredig y llynedd ac rwyf wedi dod i'r casgliad bod cynnydd da wedi'i wneud ar y cyfan er bod heriau penodol o hyd.

### Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i gryfhau ei drefniadau llywodraethu ond mae angen gwneud mwy i fynd i'r afael â nifer o feysydd allweddol y mae angen eu gwella ymhellach

**36.** Mae fy adolygiad o'r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd i gryfhau ei drefniadau llywodraethu wedi canfod y canlynol:

- Mae'r broses o ddatblygu'r cynllun gweithredol yn 2011-12 wedi bod yn llawer mwy cynhwysol ac wedi dechrau dwyn ynghyd yr adnoddau ariannol, cynllun y gweithlu a'r amcanion gweithredol ar gyfer y flwyddyn. Fodd bynnag, erys heriau o hyd o ran cyflawni targedau gweithredol a sicrhau arbedion. O ystyried graddau'r newidiadau sydd eu hangen, mae angen i gynlluniau gwasanaeth, cynlluniau'r gweithlu a chynlluniau ariannol gael eu datblygu a'u cyflawni mewn ffordd fwy cydlynol a rheoledig.
- Gwnaed newidiadau i gryfhau trefniadau cydweithio ar draws y strwythur sefydliadol ac mae mwy o eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau unigol. Fodd bynnag, mae angen gwneud mwy o waith i sicrhau y deellir rôl is-adrannau corfforaethol yn llawn.
- Ym mis Mehefin 2011, cymeradwyodd y Bwrdd strwythur pwyllgorau diwygiedig sy'n ceisio mynd i'r afael â materion yn ymwneud â ffocws a dyblygu. Serch hynny, mae'n rhy gynnar i ddweud pa un a yw'r newidiadau hyn wedi bod yn effeithiol.
- Er bod Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd wedi'i gymeradwyo, mae angen gwneud gwaith parhaus i sicrhau ei fod yn cael ei weithredu fel y'i bwriadwyd ac yn cael ei ategu gan drefniadau rheoli risg cryfach a ymgorfforir ym mhob rhan o'r Bwrdd Iechyd.
- Mae Pwyllgor Archwilio datblygol a threfniadau archwilio clinigol gwell wedi helpu i gryfhau dulliau rheolaeth fewnol, ond mae angen gwneud mwy o hyd i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn yr arolwg diweddar a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Archwilio ac ymgorffori gwaith archwilio clinigol yn fwy eang yn y fframwaith sicrwydd cyfan.

- Mae’r Bwrdd Iechyd yn rhoi cynllun strategol ar waith ar gyfer Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg; wrth wneud hynny, bydd angen iddo sicrhau bod y cynllun yn adlewyrchu dealltwriaeth gynhwysfawr o systemau presennol ac yn gweddu i’r agenda genedlaethol.
- Mae fframwaith rheoli perfformiad y Bwrdd Iechyd wedi’i gryfhau gyda ffocws cryfach ar ofal sylfaenol. Fodd bynnag, dim ond yn ddiweddar y defnyddiwyd y fframwaith mewn ffordd systematig ac effeithiol yn yr is-adrannau.
- Mae’r Bwrdd Iechyd wedi parhau i sicrhau bod trefniadau ar waith i hyrwyddo a sicrhau cywirdeb a phriodoldeb ond mae angen gwneud llawer o waith o hyd i adolygu a diweddaru polisïau a mynd i’r afael â’r gwendidau a nodwyd.

**Mae’r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd pellach o ran nifer o’i swyddogaethau ‘galluogi’ sy’n ei gynorthwyo i ddefnyddio adnoddau mewn ffordd effeithlon, effeithiol a darbodus. Serch hynny, araf fu’r cynnydd o ran rhoi’r fframweithiau angenrheidiol ar waith i reoli ei ystadau.**

**37.** Mae fy adolygiad o’r cynnydd a wnaed yn y meysydd y nodwyd bod lle i wella arnynt yn y gwaith a wnaethom yn 2010 o ran y ffactorau sy’n galluogi’r Bwrdd Iechyd i ddefnyddio adnoddau mewn ffordd effeithlon, effeithiol a darbodus wedi canfod y canlynol:

- mae’r Bwrdd Iechyd wedi parhau i ganolbwyntio ar y gwaith o gynllunio’r gweithlu, ond mae angen gwneud mwy i fynd i’r afael â chynhyrchiant ac effeithlonrwydd y gweithlu, gan adeiladu ar y gwaith a wnaed hyd yma er mwyn sicrhau bod dull cynllunio swyddi cadarn ar waith;
- er bod ystadau yn chwarae rôl hollbwysig yn y broses o gyflawni cynllun strategol pum mlynedd y Bwrdd Iechyd, araf fu’r cynnydd o ran rhoi’r trefniadau angenrheidiol ar waith i reoli ei ystadau;
- mae seiliau ar gyfer gwella trefniadau caffael yn y Bwrdd Iechyd, ond mae angen cynnal y rhain yn dilyn ymadawiad y Cyfarwyddwr Cynorthwyol;
- mae’r Bwrdd Iechyd wedi parhau i ddatblygu partneriaethau ac, yn ddiweddar, datblygwyd fframwaith llywodraethu integredig sy’n helpu i egluro atebolrwydd asiantaethau partner; ac
- mae’r Bwrdd Iechyd wedi parhau i ddatblygu ei waith ym maes ymgysylltu â’r gymuned a chleifion, ac mae’n cydnabod pwysigrwydd y gweithgareddau hyn o ran derbyn a meithrin dealltwriaeth o’r newidiadau y bydd angen eu gwneud i wasanaethau yn y dyfodol.

## Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cryfhau ei drefniadau ar gyfer contract y meddygon ymgynghorol ond mae rhwystrau yn bodoli a all rwystro'r Bwrdd rhag cyflawni buddiannau llawn y contract

**38.** Fel rhan o'm gwaith i bennu cwmpas ar gyfer y Bwrdd Iechyd i gyflawni mwy o arbedion effeithlonrwydd wrth ddefnyddio ei adnoddau, rwyf wedi ystyried pa un a oes gan y Bwrdd Iechyd y trefniadau angenrheidiol ar waith i sicrhau bod buddiannau bwriadedig contract y meddygon ymgynghorol yn cael eu cyflawni.

**39.** Dangosodd y gwaith hwn nad yw'r Bwrdd Iechyd yn cyflawni buddiannau bwriadedig contract y meddygon ymgynghorol eto, yn bennaf o ganlyniad i drefniadau cynllunio swyddi aneffeithiol. Dylai fframwaith newydd sy'n cael ei gyflwyno ym mhob rhan o'r Bwrdd Iechyd arwain at y gwelliannau angenrheidiol, os caiff ei weithredu'n llwyddiannus.

**40.** Canfu fy ngwaith, ers cyflwyno'r contract diwygiedig yn 2003, na fu gwaith cynllunio swyddi meddygon ymgynghorol yr hen ymddiriedolaeth yn ddigon cadarn ac na chafodd gwaith cynllunio swyddi ei ddefnyddio mewn ffordd systematig i ysgogi datblygiad nac ychwaith wella'r gwasanaethau a ddarparwyd. Roedd canfyddiadau penodol yr archwiliad yn cynnwys:

- dull anghyson o gynllunio swyddi;
- cynlluniau swyddi wedi'u dogfennu'n wael;
- ychydig iawn o newid o ran ymrwymiadau sesiynol meddygon ymgynghorol dros y blynyddoedd diwethaf; a
- thystiolaeth gyfyngedig i ddangos gweithgareddau proffesiynol ategol.

**41.** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau i atgyfnerthu ei drefniadau cynllunio swyddi. Mae fframwaith cynllunio swyddi newydd ar waith, ac ymddengys fod y fframwaith hwnnw yn un cadarn. Derbyniwyd y dull gweithredu hwn yn eang gan feddygon ymgynghorol a chyfarwyddwyr clinigol ac mae cynlluniau swyddi 85 y cant o feddygon ymgynghorol bellach wedi cael eu hadolygu.  Er bod hyn yn gadarnhaol, mae'r gwaith a wnaed gennyf wedi nodi rhwystrau a all atal y Bwrdd Iechyd rhag defnyddio trefniadau cynllunio swyddi yn y ffordd orau bosibl.

- nid yw cyfarwyddiaethau clinigol yn cydweithio'n effeithiol bob amser i ddatblygu gwasanaethau;
- mae'r potensial sydd gan drefniadau cynllunio swyddi i ddatblygu gwaith tîm gwell rhwng meddygon ymgynghorol a rheolwyr yn cael ei rwystro oherwydd y ffordd y caiff rhai agweddau ar y broses o gynllunio swyddi eu cymhwyso, er enghraifft, mae rhai cyfarfodydd adolygu yn cael eu rhuthro; ac
- er bod llawer o gyfarwyddiaethau yn defnyddio gwybodaeth am weithgareddau i ategu'r broses o gynllunio swyddi, nododd llawer o feddygon ymgynghorol ei bod yn anodd cael gafael ar ddata i ategu cynlluniau swyddi drwy fewnrwyd y Bwrdd Iechyd oherwydd bod y rhwydweithiau yn araf.

42. Rwy'n bwriadu gwneud gwaith dilynol ar y cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd o ran gweithredu ei fframwaith newydd a mynd i'r afael â'r rhwystrau hyn ym mis Ionawr 2012.

## Cymerwyd camau i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd mewn nifer o adolygiadau archwilio perfformiad blaenorol ond mae angen gwneud cynnydd pellach mewn sawl maes

43. Yn ystod y 12 mis diwethaf, rwyf wedi gwneud gwaith archwilio dilynol i asesu'r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd o ran mynd i'r afael â'r pryderon a'r argymhellion sy'n deillio o waith archwilio blaenorol mewn meysydd penodol lle y darperir gwasanaethau. Ceir crynodeb o ganfyddiadau'r gwaith dilynol yn Arddangosyn 3.

### Arddangosyn 3: Cynnydd o ran gweithredu argymhellion yr archwiliad

| Maes y gwaith dilynol | Casgliadau a chanfyddiadau allweddol yr archwiliad |
|---|---|
| Y Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd ar gyfer Meddygon Iau | Er nad yw rota un meddyg iau yn cydymffurfio, mae'r Bwrdd Iechyd wedi rhoi ffocws corfforaethol cryf ar ofynion y Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd ar gyfer meddygon iau ac yn mynd i'r afael â phryderon ynghylch cynaliadwyedd arferion gwaith cyfredol.<br>• er bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd sylweddol, nid yw rota un meddyg iau yn cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb eto a dim ond yn gynharach yn 2011 y cydymffurfiodd dwy rota arall â hi;<br>• mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu ffyrdd amgen o weithio er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb ac mae'n ymwybodol o bryderon ynghylch cynaliadwyedd arferion gwaith cyfredol ac yn mynd i'r afael â'r pryderon hynny;<br>• mae trefniadau ar waith ar gyfer monitro rotâu ond gellid eu gwella; a<br>• nodwyd cyfrifoldebau ac atebolrwydd am gydymffurfio â'r Gyfarwyddeb yn glir yn fframwaith sicrwydd y Bwrdd Iechyd. |

| Maes y gwaith dilynol | Casgliadau a chanfyddiadau allweddol yr archwiliad |
|---|---|
| Gofal heb ei Drefnu (Gwaith Dilynol Rhagarweiniol) | Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithio'n galed i ddatblygu dull system gyfan o ddarparu gwasanaethau gofal heb ei drefnu ond nid yw effaith y gwaith hwn wedi cael ei hadlewyrchu eto mewn perfformiad gwell yn erbyn mesurau allweddol. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:<br>• mae argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol wedi llywio cynlluniau'r Bwrdd Iechyd i wella gwasanaethau gofal heb ei drefnu, gyda chynnydd yn erbyn y cynlluniau yn cael ei reoli;<br>• mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno amrywiaeth o fentrau i reoli llifau cleifion ond nid yw effaith y gwaith hwn yn cael ei hadlewyrchu eto yn y targedau ar gyfer gofal heb ei drefnu a gyflawnir.<br>• megis dechrau y mae'r mentrau gyda sefydliadau partner i wella gwasanaethau gofal heb ei drefnu;<br>• mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu nifer o fentrau i wella mynediad i wasanaethau gofal heb ei drefnu ac i osgoi derbyniadau.<br>• mae nifer o lwybrau gofal wedi'u datblygu ar gyfer cyflyrau acíwt;<br>• bu'r cynnydd o ran cyfuno systemau gwybodaeth yn araf; ac<br>• mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd da o ran ailgynllunio model y gweithlu wrth ddrws ffrynt ysbytai. |

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Adroddiadau archwilio ariannol** | |
| Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol | Mehefin 2011 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol | Mehefin 2011 |
| Barn ar ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan | Awst 2011 |
| Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol - Adroddiad Manwl | Medi 2011 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol Cryno | Medi 2011 |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad (blwyddyn yr amlinelliad o'r archwiliad)** | |
| Contract y Meddygon Ymgynghorol (2009) | Chwefror 2011 |
| Gwaith dilynol ar y Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd (2010) | Gorffennaf 2011 |
| Gwasanaethau Cymunedol Cam 1 (gweithdai a hwyluswyd) (2009) | Gorffennaf 2011 |
| Gwaith Dilynol Rhagarweiniol ar Ofal heb ei Drefnu (2010) | Medi 2011 |
| Asesiad Strwythuredig - Gwaith Dilynol ar Drefniadau Corfforaethol (cyflwyniad) (2011) | Hydref 2011 |
| **Adroddiadau eraill** | |
| Amlinelliad o Waith Archwilio 2011 | Mawrth 2011 |

Mae hefyd nifer o archwiliadau o berfformiad sy'n mynd rhagddynt yn y Bwrdd Iechyd o hyd. Dangosir y rhain isod, gyda dyddiadau cwblhau amcangyfrifedig ar gyfer y gwaith.

| Adroddiad (blwyddyn yr amlinelliad o'r archwiliad) | Dyddiad cwblhau amcangyfrifedig |
|---|---|
| Ystafelloedd Llawdriniaethau a Llawdriniaethau Achosion Dydd) (2010) | Tachwedd 2011 |
| Parhad Busnes/Adfer mewn Argyfwng (2011) | Tachwedd 2011 |
| Gwaith Dilynol ar Wasanaethau Mamolaeth (2010) | Tachwedd 2011 |
| Staffio Wardiau (2010) | Tachwedd 2011 |
| Ansawdd Data (2011) | Tachwedd 2011 |
| Gwasanaethau Cymunedol Cam 2 (2009) | Tachwedd 2011 |
| Rheoli Cyflyrau Cronig (2011) | Chwefror 2012 |
| Gofal heb ei Drefnu - Gwaith Dilynol Manwl (2011) | Chwefror 2012 |

| Adroddiad (blwyddyn yr amlinelliad o'r archwiliad) | Dyddiad cwblhau amcangyfrifedig |
|---|---|
| Ymgysylltu Clinigol (2011) | Chwefror 2012 |
| Adolygiad o'r Bwrdd Partneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig (2011) | Rhagfyr 2011 |
| Gwaith Dilynol ar Gontract y Meddygon Ymgynghorol (2011) | Chwefror 2012 |

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Nododd yr Amlinelliad o Waith Archwilio ar gyfer 2011 ffi archwilio arfaethedig o £424,448 (ac eithrio TAW). Mae fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol yn unol â'r ffi a nodwyd yn yr amlinelliad.

Yn ogystal â'r ffi a nodir uchod, roedd y ffi am y gwaith archwilio a wnaed o ran y gwasanaethau a rennir a ddarparwyd i'r Bwrdd Iechyd gan y Ganolfan Gwasanaethau Busnes yn £16,228.

Yn ystod y flwyddyn, adolygais y gwaith archwilio perfformiad yn Strategaeth Archwilio 2010 a oedd heb ei wneud o hyd. Arweiniodd hyn at ad-daliad o £21,056 (ac eithrio TAW) o ffi archwilio 2010, fel yr amlinellwyd mewn llythyr i'r Cyfarwyddwr Cyllid ym mis Gorffennaf 2011. Dangosir y prosiectau archwilio perfformiad yr effeithiwyd arnynt isod.

| Pwnc | Statws |
|---|---|
| Gofal Iechyd Parhaus | Mae'r gwaith hwn bellach yn rhan o'm rhaglen o archwiliadau Gwerth am Arian cenedlaethol ar gyfer 2011-12. Mae'r gyfran o ffi archwilio 2010 wedi'i chynnwys yn yr ad-daliad i'r Bwrdd Iechyd. |
| Gwaith dilynol ar ganfyddiadau archwiliad blaenorol - Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed | Mae'r gwaith hwn bellach yn rhan o'm rhaglen o archwiliadau Gwerth am Arian cenedlaethol ar gyfer 2011-12. Mae'r gyfran o ffi archwilio 2010 wedi'i chynnwys yn yr ad-daliad i'r Bwrdd Iechyd. |
| Gwaith dilynol ar ganfyddiadau archwiliad blaenorol - Rhoi Strategaeth ar Waith | Cwmpaswyd sawl agwedd ar y gwaith dilynol o dan waith Blwyddyn 1 ein Hasesiad Strwythuredig y cyflwynwyd adroddiad arno ym mis Mawrth 2011. Mae'r meysydd hynny nas cwmpaswyd yn cael eu hintegreiddio mewn meysydd gwaith a amlinellwyd yng nghynllun 2011, sef cyflyrau cronig ac ansawdd data yn benodol. Bydd y gyfran o ffi perfformiad 2010 sy'n ymwneud â'r gwaith hwn yn ategu ein cynllun ar gyfer 2011. |
| Adfer ar ôl Trychineb TGCh/Parhad Busnes | Mae'r gwaith hwn yn parhau ond caiff ei ariannu bellach o ffi 2011. Mae'r gyfran o ffi perfformiad 2010 sy'n ymwneud â'r gwaith hwn wedi'i had-dalu.<br>Er mwyn cynnwys hyn yn rhaglen 2011, ystyrir cynnwys y gwaith o weithredu gofynion Caldicott, fel yr amlinellwyd yn ein cynllun ar gyfer 2011, yn ein rhaglen ar gyfer 2012. |

251658752

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk

Website: www.wao.gov.uk